

# Tim Berners-Lee

1955-Heddiw

## Dyfeisiwr y We Fyd Eang

Ganed Tim Berners-Lee yn Llundain. Gweithiodd ei rieni ar y cyfrifiadur masnachol cynnar Ferranti Mark I. Pan oedd yn ifanc, mwynhaodd Berners-Lee fathemateg ac electroneg, ac aeth ymlaen i astudio ym Mhrifysgol Rhydychen, gan raddio gyda gradd mewn Ffiseg yn 1976.

Dechreuodd Berners-Lee fel datblygwr meddalwedd cyfrifiadurol a chafodd swyddi amrywiol yn y diwydiant cyfrifiaduron. Bu'n gweithio yn CERN, y labordy ffiseg gronynnau rhyngwladol ger Genefa, y Swistir, am gyfnod byr yn 1980 ac eto yn 1984 lle'r oedd yn canolbwyntio ar alluogi rhwydweithiau i gasglu a rhannu data ar-lein. Yn CERN, ym 1989, cynigiodd Berners-Lee system ar gyfer rhannu a diweddaru gwybodaeth ddosbarthedig, gan ddefnyddio ffeiliau sy'n cynnwys dolenni i ffeiliau eraill o'r enw hyperdestun. Daeth y feddalwedd a greodd yn ystod 1990-1991, gan gynnwys gweinydd, porwr a golygydd i gael ei hadnabod fel y We Fyd Eang.

Ym 1994, yn UDA, ffurfiodd Berners-Lee Gonsortiwm y We Fyd Eang (W3C) i oruchwylio a datblygu safonau ar gyfer y We. Yn y Deyrnas Unedig, cafodd ei urddo'n farchog yn 2004 a'i benodi i Urdd Teilyngdod elitaidd yn 2007.

Enw llawn: Sir Timothy John Berners-Lee
Ganwyd: 8 Mehefin 1955
Cartref: Llundain, Lloegr
Swydd: Gwyddonydd cyfrifiadurol
Yn adnabyddus am: Fe oedd dyfeisiwr y We Fyd Eang

Swansea University Prifysgol Abertawe
Casgliad Hanes Cyfrifiadura

technocamps

@technocamps